

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

Y BIL TAI CYMDEITHASOL (RHEOLEIDDIO)

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) ("y Bil") ei gyflwyno i Senedd y DU, yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 8 Mehefin 2022. Gosodais [LCM ar y Bil fel y'i cyflwynwyd](#) ar 18 Awst.
3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 42 o welliannau ar 25 Awst i'w hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a gynhaliwyd ar 6 Medi. Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Disgrifir eu heffaith ym mharagraffau 17 i 41 isod.
4. Derbyniwyd yr holl welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn y memorandwm atodol hwn yn cyfeirio at y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ac a gyhoeddwyd ar 6 Tachwedd. Mae'r fersiwn hon o'r Bil i'w gweld yn: [Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#).
5. Ar 8 Medi, ysgrifennais at y Llywydd yn egluro, oherwydd y gosodwyd y gwelliannau yn ystod y toriad, na fu'n bosibl gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o fewn terfyn amser arferol RhS29, sef pythefnos.

Amcan(ion) Polisi

6. Diben y Bil, fel y'i disgrifir, yw diwygio'r gyfundrefn rheoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr er mwyn ysgogi cryn newid yn ymddygiad landlordiaid fel eu bod yn canolbwyntio ar anghenion eu tenantiaid, a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.
7. Dyma amcanion craidd y Bil a ddatganwyd gan Lywodraeth y DU:
 - Hwyluso cyfundrefn reoleiddio ragweithiol newydd o ran defnyddwyr ym maes tai cymdeithasol
 - Mireinio cyfundrefn rheoleiddio economaidd bresennol tai cymdeithasol
 - Cryfhau pwerau'r Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol ("y rheoleiddiwr") i orfodi'r gyfundrefn o ran defnyddwyr a'r gyfundrefn economaidd.

Crynodeb o'r Bil

8. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.
9. Mae'r Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Bydd y diwygiadau yn sicrhau bod diogelwch a thryloywder yn chwarae rhan amlwg yn amcanion rheoleiddiwr tai cymdeithasol Lloegr ac maent yn rhoi pwerau newydd i'r rheoleiddiwr mewn perthynas â thryloywder a darparu gwybodaeth.
10. Mae'r Bil yn ceisio cynnal a mireinio rôl rheoleiddio economaidd bresennol y rheoleiddiwr, gan sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn cael eu llywodraethu'n dda a'u bod mewn sefyllfa ariannol hyfyw i ddiogelu cartrefi a buddsoddi mewn cyflenwad newydd. Yn ôl Llywodraeth y DU bydd hyn yn cefnogi gwaith presennol y rheoleiddiwr, drwy greu sefydlogrwydd a hyfywedd parhaus yn y sector drwy gyfundrefn rheoleiddio economaidd gadarn. Y nod fydd annog buddsoddiad parhaus yn y sector, drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu cartrefi newydd, a diogelu tenantiaid rhag risgiau ansolfedd darparwyr.
11. Mae'r Bil yn ceisio cryfhau rôl y rheoleiddiwr drwy roi pwerau gorfodi newydd iddo sy'n sicrhau y gall ymyrryd yn effeithiol pan fo angen, ac mae'r darpariaethau yn ceisio annog landlordiaid i gynnal safonau, osgoi bygythiad camau gorfodi, a sicrhau bod gan y rheoleiddiwr yr adnoddau priodol i ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio â'r safonau.
12. Mae mwyafrif o ddarpariaethau'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ("Deddf 2008"). Mae Rhan 2 o Ddeddf 2008 yn nodi'r gyfundrefn reoleiddio sy'n berthnasol i dai cymdeithasol a ddarperir gan gyrrff o Loegr, ac o'r herwydd nid yw'n berthnasol iawn o safbwynt ymarferol yng Nghymru. Ond mae darparwyr cofrestredig o Loegr yn gyfrifol am rywfaint o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Er na fydd darpariaethau'r Bil yn cael fawr o effaith o ystyried y nifer bach o ddarparwyr cofrestredig o Loegr sydd â stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf 2008 serch hynny'n ymwneud â thai sy'n fater datganoledig, i'r graddau y maent yn ymwneud â darparwyr cofrestredig sydd â stoc dai yng Nghymru, ac maent felly o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
13. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bil yn yr [LCM cyntaf a osodwyd ar 18 Awst](#).

Diweddariad ar safbwynt ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

14. Gosodais LCM ar 18 Awst, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 8 Mehefin. Yn ôl yr LCM hwnnw, argymhellwyd bod y Senedd yn rhoi cydsyniad ar gyfer y darpariaethau perthnasol yn y Bil.

15. Ar 25 Awst, ysgrifennodd Eddie Hughes AS, yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gysgu Allan a Thai i gadarnhau cyflwyno gwelliannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
16. Cafodd yr holl welliannau hynny gan Lywodraeth y DU eu gosod gerbron Senedd y DU ar 25 Awst a chytunwyd arnynt 6 Medi. Mae'r gwelliannau sy'n gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn destun yr LCM atodol hwn. Mae Atodiad A yn cynnwys tabl sy'n amlinellu'r newidiadau i'r rhifau cymalau yn dilyn y gwelliannau a wnaed yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried (a'u gwneud) yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen caniatâd ar eu cyfer

17. Mae'r holl welliannau a ddisgrifir isod naill ai'n gwneud darpariaeth yng Nghymru i bwrpas, neu'n gysylltiedig â phwrpas, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (tai, i'r graddau y mae'n gymwys ar gyfer darparwyr cofrestredig yn Lloegr sydd â stoc dai yng Nghymru), ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.

Cymal 3

18. Mae cymal 3 yn diwygio adrannau 107 a 108 o Ddeddf 2008 i ehangu'r pŵer presennol i'r rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu dogfennau neu wybodaeth at ddibenion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau rheoleiddio. Mae'r diwygiadau a wneir yma yn ganlyniadol ar ychwanegu trosedd newydd drwy'r cymal hwn. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer cymal 3 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 4 - Cymal newydd 'Pŵer i godi ffioedd'

19. Mae'r cymal newydd hwn yn diwygio adran 117 o Ddeddf 2008, i ganiatáu i'r rheoleiddiwr godi ffioedd am geisiadau i'w cofrestru; mae'n bosib y bydd y ffi yn cael ei gosod ar lefel i dalu costau'r rheoleiddiwr, nid dim ond y cofrestriad ei hun. Mae'r cymal newydd yma yn gwneud darpariaeth yng nghyswllt Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ac rwy'n argymhell ei fod yn cael ei roi.

Cymal 13 ac Atodlen 1

20. Mae paragraff 9 o Ran 1 o Atodlen 1 wedi'i ddileu. Mae hyn yn ganlyniadol ar newidiadau a wneir i Atodlen 2.

21. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn ymwneud yn fras ag ansolfedd, sy'n fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, er bod y ddarpariaeth yn ymwneud yn fras ag ansolfedd, mae diben cyffredinol y ddarpariaeth yn ymwneud â thai sy'n fater datganoledig.
22. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 2008 er mwyn cymhwyso'r gyfundrefn moratoriwm tai a'r cyfundrefnau gweinyddu tai mewn perthynas â darparwyr cofrestredig preifat sy'n Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig. Mae'r newidiadau a wneir i Ran 2 o Atodlen 1 yn ychwanegu darpariaethau sy'n dwyn y teitl "*Hysbysiad Cofrestru neu ddadgofrestru*" a "*Cyfrifon*" i Ran 2 o Atodlen 1, mae'r darpariaethau hyn yn ymestyn gofynion Deddf 2008 i Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig.
23. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer Rhan 1 a 2 o Atodlen 1 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran tai sy'n fater datganoledig, neu sy'n ymwneud â'r mater hwnnw, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 17 (cymal 16 fel y'i cyflwynwyd)

24. Mae isadran (5) wedi'i dileu o gymal 17 o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniadol ar fewnosod cymal 18 newydd ac ychwanegu adrannau newydd 169CB, 169CC a 169CD i Ran 2 o Ddeddf 2008. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer cymal 16 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 18 - Cymal newydd – 'Hysbysu am newid rheolaeth'

25. Mae'r cymal 18 newydd yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf 2008 i ychwanegu adrannau newydd 169CB, 169CC a 169CD. Bydd yr adrannau newydd hyn yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr cofrestredig i hysbysu'r rheoleiddiwr os bydd digwyddiadau penodol yn digwydd. Mae'r digwyddiadau yn rhai a allai effeithio ar reolaeth y darparwr. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ac rwyf i'n argymhell ei fod yn cael ei roi.

Cymal 19 (cymal 17 fel y'i cyflwynwyd)

26. Mae cymal 19 yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf 2008. Mae'r newid a wneir yma yn dileu is-adran (3) o gymal 19. Mae'r newid hwn yn ganlyniadol ar osod cymal 22 newydd yn lle cymal 20. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer cymal 17 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 22 – Cymal newydd 'Methiant i gyrraedd safonau: arfer pwerau ymyrryd' (dileu cymal 20 fel y'i cyflwynwyd)

27. Mae cymal 20 wedi'i ddileu o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd) a gosodwyd cymal 22 newydd yn y Bil. Mae'r cymal 22 newydd yn hepgor adrannau 198A a 198B o Ddeddf 2008, sy'n nodi seiliau cyffredinol dros arfer pwerau ymyrryd. Gwnaed diwygiadau cysylltiedig i Atodlen 3, sy'n addasu'r seiliau y gellir arfer pwerau ymyrryd arnynt. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ac rwyf i'n argymhell ei fod yn cael ei roi.

Cymal 23 (cymal 21 fel y'i cyflwynwyd)

28. Diwygiwyd cymal 23 i ddileu cyfeiriad at adran 198B o ganlyniad i'r cymal 22 newydd. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer cymal 21 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 25 (cymal 23 fel y'i cyflwynwyd)

29. Roedd y newid a wnaed i gymal 25 yn ganlyniadol ar fewnosod paragraff 8A newydd yn Atodlen 3. Mae'r paragraff newydd hwn yn diwygio adran 252A o Ddeddf 2008. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer cymal 23 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 30 (Cymal 28 fel y'i cyflwynwyd) ac Atodlen 3

30. Diwygiwyd Deddf 2008 i addasu'r seiliau y gall y rheoleiddiwr weithredu arnynt o dan wahanol senarios, yn gysylltiedig â diddymu adrannau 198A a 198B o Ddeddf 2008, drwy'r cymal 22 newydd. Gwnaed diwygiadau eraill o ganlyniad i'r newidiadau hyn.
31. Ychwanegwyd paragraffau 15 a 16 i Atodlen 3, sy'n diwygio Deddf 2008 i ehangu pŵer y rheoleiddiwr i benodi swyddogion darparwr cofrestredig.
32. Diwygiwyd paragraff 14(b) o Atodlen 3 i'w gwneud yn glir nad oes angen i'r rheoleiddiwr aros tan i gyfnod penodiad swyddog ddod i ben cyn adnewyddu'r penodiad.
33. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol yn Atodlen 3 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 32 - Cymal newydd – Ystyr "is-gorff" ("subsidiary")

34. Mae'r cymal newydd hwn yn ehangu ystyr "is-gorff" yn Rhan 2 o Ddeddf 2008 felly, ymysg pethau eraill, mae'n berthnasol i gyrff yn hytrach na chwmnïau. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd, yr wyf i'n argymhell ei fod yn cael ei roi.

Cymal 34 (cymal 31 fel y'i cyflwynwyd)

35. Mae cymal 34 yn sicrhau bod ombwdsmon tai cynllun sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") yn cael ei rymuso i gyhoeddi cod ymarfer ar ymdrin â chwynion ac yn ei gwneud yn glir y gall ombwdsmon tai ddyroddi gorchmynion sy'n ceisio atal materion a nodir yn ystod ymchwiliad rhag ailgodi drwy orchymyn aelod i adolygu ei arferion a/neu bolisi.
36. Gwnaed newidiadau i'w gwneud yn ofynnol i'r ombwdsmon tai fonitro cydymffurfiaeth â chod ymarfer o'r fath, er mwyn ei gwneud yn glir y gellir gosod tanysgrifiadau sy'n daladwy gan aelodau o gynllun ombwdsmon tai ar lefel i dalu holl gostau gweinyddwr y cynllun a'r ombwdsmon, ac at ddibenion cysylltiedig. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer cymal 31 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 35 ac Atodlen 5 (ac eithrio paragraff 36)

37. Mae Atodlen 5 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol. Mae Rhan 1 o Atodlen 5 yn diwygio Deddf 2008.
38. Mae adran 122 o Ddeddf 2008 wedi'i ehangu i ddarparu ar gyfer adennill rhoddion neu daliadau anghywir, felly mae'n berthnasol i bob darparwr cofrestredig dielw. Gwnaed diwygiadau i Ddeddf 2008 sy'n gysylltiedig â chymal 7 o'r Bil sy'n dileu dynodiad awtomatig o elusennau fel sefydliadau dielw ac o ganlyniad i gyflwyno cymal 18 newydd.
39. Gwnaed newidiadau i Ran 2 o Ddeddf 2008 i gael gwared ar eiriau diangen a sicrhau mwy o gysondeb iaith. Mae adrannau 258 a 264 o Ddeddf 2008 wedi'u diweddarau i ddarparu bod trosedd o dan yr adrannau hynny yn cael ei chosbi ar gollfarn ddiannod gyda dirwy ddiderfyn. Mae paragraff 37 o Atodlen 5 wedi'i ddileu o ganlyniad i ddiwygiad i Atodlen 3.
40. Argymhellais fod angen caniatâd deddfwriaethol ar gyfer Atodlen 5 fel y'i cyflwynwyd (ac eithrio paragraff 36) oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd

deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Crynodeb

41. Fel yr amlinellwyd uchod, nid yw fy marn ar yr angen am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau o'r Bil fel y'i cyflwynwyd, a nodir yn yr LCM a osodwyd ym mis Awst, wedi newid. Os oes darpariaeth wedi'i diwygio yn y cymalau hyn, a lle mae cymalau newydd wedi eu cyflwyno sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu o ran tai sy'n fater datganoledig, rwy'n credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

42. Yn ei lythyr ar 25 Awst, dywedodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol ar y pryd dros Gysgu Allan a Thai, Eddie Hughes AS, wrth gadarnhau gosod gwelliannau Llywodraeth y DU:

Mae effaith y gwelliannau hyn ar Gymru, a rhai o'r gwelliannau eu hunain yn fychan a thechnegol. Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer rhai o'r darpariaethau hyn am y rhesymau a nodir yn fy ngohebiaeth ddiwethaf.

43. Yn dilyn ein dadansoddiad wedi hynny o effaith y newidiadau i Fil Cymru, rwy'n cytuno gan fod y diwygiadau a amlinellir ym mharagraffau 17 i 41 uchod yn gwneud darpariaeth sy'n berthnasol i Gymru ac sy'n ymwneud â thai sy'n fater datganoledig (i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarparwyr cofrestredig o Loegr sydd â stoc dai yng Nghymru) sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'n ofynnol gofyn am ganiatâd y Senedd i'r gwelliannau hynny.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

44. Fel yr eglurwyd uchod, cymharol ychydig o eiddo sydd yng Nghymru sy'n eiddo i ddarparwyr cofrestredig o Loegr a/neu a reolir ganddynt, a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau mewn amgylchedd rheoleiddio a ddisgrifir gan y Bil.
45. Bwriedir y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod y cyfnod pwyllgor, yn arwain at welliannau ym mherfformiad darparwyr cofrestredig, gan gryfhau hawliau tenantiaid a sbarduno newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i bob tenant darparwyr cofrestredig o Loegr, gan gynnwys y

tenantiaid Cymreig hynny y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt ac felly rwy'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil Seneddol y DU.

Goblygiadau ariannol

46. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu cymhwysu yng Nghymru.

Casgliad

Fel y nodir uchod, rydw i o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y diwygiadau a wnaed i Gymalau 3, 13 (mewn perthynas ag Atodlen 1), 17, 19, 23, 25, 30 (mewn perthynas ag Atodlen 3), 34 a 35 (mewn perthynas ag Atodlen 5), ac ar gyfer cymalau newydd 4, 18, 22 a 32, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (i'r graddau y maent yn gymwys i ddarparwyr cofrestredig yn Lloegr sydd â stoc dai yng Nghymru). Mae angen caniatâd deddfwriaethol hefyd ar gyfer dileu paragraff 9 o Ran 1 o Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth o ran tai sy'n fater datganoledig.

47. Fel yr amlinellir yn yr LCM ar gyfer y Bil fel y'i cyflwynwyd, rydw i o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU o ystyried y niferoedd bach o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru y mae darparwr cofrestredig a leolir yn Lloegr yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. At hynny, mae'r diwygiadau a wneir gan y cymalau yn gadarnhaol i'r tenantiaid hynny yng Nghymru, am eu bod yn diwygio'r gyfundrefn reoleiddio ym maes tai cymdeithasol drwy gryfhau hawliau tenantiaid a hyrwyddo newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.
48. Rwyf felly yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
05 Hydref 2022

Atodiad A - Tabl yn cymharu fersiynau o'r Bil

Y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Rhif y cymal wrth ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi
1	Amcanion sylfaenol	1
2	Panel Cyngori	2
3	Casglu Gwybodaeth	3
	Pŵer i godi ffioedd	4
4	Y gydberthynas rhwng y rheoleiddiwr a'r ombwdsmon tai	5
5	Ystyr corff Seisnig ("English body")	6
6	Meini Prawf Cofrestru	7
7	Dynodi	8
8	Dadgofrestru	9
9	Penodi arweinydd iechyd a diogelwch gan ddarparwr cofrestredig	10
10	Safonau diogelwch trydanol	11
11	Moratoriwm ar waredu tir	12
12	Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig	13
13	Ansolfedd darparwyr cofrestredig	14
14	Gofynion hysbysu: ymestyn i sefydliadau nid er elw	15
15	Trosglwyddo ymrwymadau o gymdeithas gofrestredig	16
16	Hysbysu am newidiadau cyfansoddiadol	17
	Hysbysu am newid rheolaeth	18
17	Safonau yn ymwneud â gwybodaeth a thryloywder	19
18	Cod ymarfer: safonau yn ymwneud â materion defnyddwyr	20
19	Cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol	21

Rhif y cymal wrth ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi
20	Pwerau ymyrryd: dileu'r prawf niwed difrifol	Wedi'i ddileu o'r Bil
	Methiant i gyrraedd y safonau: arfer pwerau ymyrryd	22
21	Monitro Perfformiad	23
22	Arolygon	24
23	Cynlluniau gwella perfformiad	25
24	Camau unioni brys	26
25	Estyn pwerau i elusennau nad ydynt wedi cael cymorth cyhoeddus	27
26	Hysbysu'r Comisiwn Elusennau pan arferir pwerau gorfodi	28
27	Arfer pwerau: tir â buddiant y Goron neu fuddiant y Ddugiaeth	29
28	Pwerau Rheoleiddio/Gorfodi: diwygiadau pellach	30
29	Gadael y stoc tai cymdeithasol: diwedd les	31
	Ystyr is-gorff ("subsidiary")	32
30	Apeliadau	33
31	Y Cynllun Ombwdsmon Tai	34
32	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol	35
33	Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol	36
34	Rhychwant	37
35	Cychwyn	38
36	Enw byr	39
Atodlen 1	Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig	Atodlen 1
Rhan 1	Diwygio Deddf Tai a Chynllunio 2008	Rhan 1
Rhan 2	Diwygio Deddf Tai ac Adfywio 2008	Rhan 2
Atodlen 2	Diwygiadau i gyfyngiadau ar weithdrefnau ansolfedd	Atodlen 2
Atodlen 3	Pwerau Rheoleiddio/Gorfodi	Atodlen 3
Atodlen 4	Apeliadau	Atodlen 4
Atodlen 5	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol	Atodlen 5

Rhif y cymal wrth ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi
Rhan 1	Deddf Tai ac Adfywio 2008	Rhan 1
Rhan 2	Deddfau Eraill	Rhan 2
Rhan 3	Darpariaeth ddarfodol	Wedi'i ddileu o'r Bil